# Cytundeb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Cytundeb Partneriaeth rhwng Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a chynghorau gwasanaethau gwirfoddol gogledd Cymru ar ran sefydliadau trydydd sector yng ngogledd Cymru.

## Cyflwyniad

Mae'r Cytundeb hwn yn gytundeb partneriaeth rhwng Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Comisiynydd) a chwe chyngor gwasanaethau gwirfoddol gogledd Cymru ar ran sefydliadau trydydd sector yng ngogledd Cymru. Mae wedi'i gytuno gan y swyddogion cyfrifol am y sefydliadau priodol.

Mae'n rhoi fframwaith i wella ymgysylltiad, datblygu nodau ac amcanion a rennir, parch at ei gilydd a dealltwriaeth. Bydd yn cynorthwyo'r Comisiynydd a phartneriaid trydydd sector i wella ansawdd gwasanaethau i bobl gogledd Cymru.

Mae llwyddiant y cytundeb yn dibynnu ar ymrwymiad y ddwy ochr. Gall cydweithrediad gryfhau cysylltiadau gweithio presennol mewn cyfnod o bwysau economaidd. Gall hyn alluogi pawb i ymateb i heriau'r dyfodol. Bydd gweithio'n agosach yn galluogi sefydliadau i amlhau adnoddau a gwybodaeth ac felly dod yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Y rhai sy'n rhan o'r cytundeb hwn ydy:

| Sefydliad Partner | Logo | Cadeiryddion | Llofnod |
|---|---|---|---|
| Medrwn Môn, Ynys Môn | | | Andrew Hughes |
| Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy | | | Mary Trinder |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych | | | Sandra Donoghue |
| Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint | | | Barbara Roberts |
| Mantell Gwynedd | | | Gwen Griffith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) | | | David Thompson (Llofnodwyd ar ran AVOW) |
| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | | | Andrew Dunbobbin |

Cytunir ar y Cytundeb hwn ar 08.02.22

## Rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ydy'r corff llywodraethu lleol ar gyfer plismona yng ngogledd Cymru. Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd gyffredinol i sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol, sy'n arddangos gwerth am arian ac, yn anad dim, yn lleihau trosedd.

Mae gan y Comisiynydd bedair prif ddyletswydd, sef:

- Amlinellu'r blaenoriaethau plismona yng ngogledd Cymru
- Penderfynu ar y gyllideb ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru
- Dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol, a
- Gwrando ac ymateb i farn y cyhoedd ar blismona

Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, mae gan y Comisiynydd ystod o rym a chyfrifoldebau gan gynnwys:

- Bod yn atebol i'r etholwyr a chynrychioli'r cyhoedd mewn materion plismona
- Paratoi Cynllun Heddlu a Throsedd sy'n amlinellu'r cyfeiriad strategol a'r amcanion ar gyfer plismona yng ngogledd Cymru
- Gosod y 'praesept' plismona, sy'n rhan o'r dreth gyngor leol sy'n cyfrannu at blismona
- Gweithio â phartneriaid i atal a mynd i'r afael â throsedd ac ail-droseddu
- Dwyn yr heddlu'n atebol, drwy'r Prif Gwnstabl, am gyflawni gwasanaethau heddlu
- Penodi ac, os oes angen, diswyddo'r Prif Gwnstabl
- Goruchwylio cwynion yn erbyn Heddlu Gogledd Cymru
- Comisiynu gwasanaethau a phrosiectau diogelwch cymunedol yn yr ardal
- Sicrhau y gweithredir ar yr hyn sy'n flaenoriaeth i'r cyhoedd, yr ymgynghorir â dioddefwyr ac nad yw'r rhai mwyaf bregus yn cael eu hanghofio
- Sicrhau gwerth am arian

## Rôl Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol

Bydd y chwe Chyngor Gwirfoddol Sirol (CVCs) yn cydlofnodi'r Cytundeb. Nhw ydy'r sefydliadau ambarél sy'n cynorthwyo, hyrwyddo a chynghori sefydliadau gwirfoddol a chymunedol lleol. Maent yn cynorthwyo gwirfoddoli, cynghori ar arfer da, rhoi gwybodaeth ar ffynonellau ariannu ynghyd ag ystod eang o wasanaethau eraill.

Mae'r term 'Trydydd Sector' fel y cyfeirir ato yn y ddogfen hon yn ymgorffori sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a diddordebau gwirfoddoli. Mae hyn yn cynnwys elusennau ledled y DU a'u canghennau lleol, sefydliadau sirol, grwpiau cymunedol anffurfiol, mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, a grwpiau cymorth hunangymorth.

O fewn y Cytundeb bydd y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn rhoi cyfleoedd i lais y Trydydd Sector a'u defnyddwyr gwasanaeth gael ei glywed. Bydd yn sicrhau adnabod effaith arwyddocaol fod sefydliadau gwirfoddol yn cyfrannu at ddiogelwch a chydlyniad cymunedol.

## Nod y Cytundeb

Mae'r cytundeb hwn yn anelu i ddatblygu'r bartneriaeth rhwng y Comisiynydd a'r trydydd sector yng ngogledd Cymru er mwyn hyrwyddo diogelwch cymunedol a lleihau trosedd. Mae hyn er mwyn cyfrannu at wneud gogledd Cymru'n lle diogel a bywiog i fyw ynddo.

Bydd y cytundeb yn

- Sefydlu ymgysylltu a chyfathrebu dwyffordd da fel bod gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fecanwaith cadarn i ymgynghori gyda'r trydydd sector.
- Sicrhau y gall y trydydd sector ddylanwadu cynllunio a datblygu wrth ymdrin â phroblemau diogelwch cymunedol lleol.
- Hyrwyddo dealltwriaeth a pharch rhwng y partïon drwy greu strwythur eglur ar gyfer deialog ac ymgysylltu.
- Creu cydweithio effeithiol er mwyn bod o fudd i bobl gogledd Cymru drwy ddod â sefydliadau tebyg at ei gilydd a'u cynorthwyo nhw rannu arfer gorau.
- Ceisio nodi cyfleoedd gweithio ar y cyd rhwng y Trydydd Sector a SCHTh er mwyn cynorthwyo cymunedau.

**Gwerthoedd ac Egwyddorion**

Ategir y Cytundeb gan y cytundeb a rennir o'r gwerthoedd canlynol

**Parch**
**Gonestrwydd**
**Tegwch**
**Uniondeb**

Bydd glynu at y gwerthoedd hyn yn sicrhau

- Parch tuag at a gwerthfawrogi cyfraniad gan holl bartneriaid waeth beth yw eu maint
- Parch tuag at annibyniaeth sefydliadau'r trydydd sector
- Parch tuag at natur strategol a rhanbarthol rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Bod yn agored yn y broses gomisiynu
- Gonestrwydd ynglŷn â gallu a'r gallu i gyflenwi gwasanaethau
- Gweithredu prosesau teg a thryloyw
- Gwneud penderfyniadau teg yn seiliedig ar brosesau a gweithdrefnau clir a thryloyw

**Amcanion**

1. Cynnal perthynas bositif drwy weithredu strategaethau gweithredu effeithiol rhwng y Comisiynydd a'r trydydd sector.
2. Defnyddio'r arbenigedd a'r wybodaeth llinell flaen sefydliadau'r trydydd sector i helpu delio ag a lleihau trosedd ac anhrefn yng ngogledd Cymru.
3. Anelu at ragoriaeth, cydraddoldeb mynediad, datblygu cynaliadwy a gwerth am arian.

**Diogelwch Cymunedol a Gweithio Mewn Partneriaeth**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod yr angen i weithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn sicrhau atebion diogel i broblemau trosedd ac anhrefn. Gwasanaethir ardal yr Heddlu gan un Bwrdd Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae rôl y Comisiynydd hefyd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Partneriaethau Gogledd Cymru Diogelach a Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd

Cymru. Mae'r Comisiynydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda chwe Chyngor Gwirfoddol Sirol Gogledd Cymru.

Gall gweithio mewn partneriaeth gynnwys:

- Gweithio mewn partneriaeth er mwyn datrys problemau mewn cymdogaethau fel ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Darparu gwasanaethau mwy effeithiol i ddioddefwyr
- Darparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig fel bod ganddynt yr hyder a'r cyfle i geisio cymorth
- Gwella'r amgylchfyd corfforol fel ei fod yn llai ffafriol i drosedd
- Darparu gwasanaethau i'r rhai hynny sy'n camddefnyddio sylweddau ond sydd eisiau cymorth i leihau'r niwed maent eisiau eu gwneud i'w hunain, eu teuluoedd a'n cymunedau, a chynorthwyo troseddwyr i adsefydlu a gwneud cyfraniad positif i gymdeithas.

Mae sefydliadau trydydd sector hefyd yn chwarae rôl hanfodol wrth gynorthwyo'r Comisiynydd i ymdrin â'r materion hyn.

**Cyfrifoldebau**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cydnabod rôl a chyfrifoldebau ei gilydd. Yn benodol, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod:

- Y cyfraniad gwerthfawr mae sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn ei wneud i ddiogelwch cymunedol
- Y gall Cynghorau Gwirfoddol Sirol hyrwyddo, hwyluso a dylanwadu arfer gorau gyda'r nod o gynnal safonau uchel llywodraethu. Fodd bynnag, mae sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn sefydliadau annibynnol sy'n penderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain a rheoli eu busnes eu hunain, gan gynnwys yr hawl i ymgyrchu.
- Bod sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn gweithredu o fewn yr egwyddorion y cawsant eu sefydlu arnynt.
- Bod Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gallu cynorthwyo'r Comisiynydd o ran ymgysylltu drwy ddatblygu gweithgareddau ymgynghori.

Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol, ar ran y trydydd sector, yn cydnabod:

- Y fframwaith cyfreithiol ac ariannol y mae'r Comisiynydd yn gweithredu o'i fewn.
- Bod y Comisiynydd yn cael ei graffu gan Banel Heddlu a Throsedd annibynnol

- Pwysigrwydd dyletswyddau'r Comisiynydd i:
  - Amlinellu'r blaenoriaethau plismona yng ngogledd Cymru
  - Penderfynu ar y gyllideb ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru
  - Dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol
  - Gwrando ac ymateb i farn y cyhoedd ar blismona

**Cronfa Grantiau Bach**

Mae sawl grŵp trydydd sector a chymunedol sy'n cynnal prosiectau a chynlluniau arloesol i leihau trosedd a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dymuno dangos cefnogaeth ariannol i rai o'r sefydliadau hyn. Felly, mae'r Comisiynydd wedi sefydlu 'Eich Cymuned, Eich Dewis' mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned. Mae'r cynllun yn gweithio drwy wahodd sefydliadau i ymgeisio am gyllid. Dewisir rhestr fer o ymgeiswyr sy'n cael eu dewis gan bleidlais gyhoeddus. Mae'r ymdriniaeth hon yn sicrhau fod grym gwneud penderfyniadau am gyllid o'r fath yn nwylo'r cyhoedd. Mae cynigion am y cyllid hwn yn agor bob gwanwyn. Hysbysir y cyhoedd am ddyddiadau agor yn y wasg leol, drwy Gynghorau Gwirfoddol Sirol ac ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**Ymgynghoriad a Gwerthusiad Polisi**

Mae gan sefydliadau'r hawl i herio ar faterion sy'n eu heffeithio nhw. Ar ben hyn, gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, o dro i dro, ymgynghori gyda sefydliadau'r trydydd sector a/neu gynghorau gwasanaeth gwirfoddol sy'n eu cynrychioli nhw ar faterion, prosiectau, neu bolisïau. Cytunir y bydd y fath ymgynghoriad yn:

- Priodol a pherthnasol i'r grŵp targed.
- Dilys a thryloyw, gan ei gwneud hi'n glir pa agweddau a ellir eu newid neu ddim.
- Hygyrch ac ar gael yn gyfartal i sefydliadau mwy a llai.
- Amserol a chyn i benderfyniadau gael eu gwneud.

Cydnabyddir mai arfer dda fyddai caniatáu 13 wythnos ar gyfer ymgynghori gan eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus eraill cyn gwneud penderfyniad. Yn achos penderfyniadau mwy fel y Cynllun Heddlu a Throsedd, bydd hwn yr amser ymgynghori byrraf. Fodd bynnag, gyda materion polisi neu ymgynghori llai lle mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn amodol ar amserlen sefydliad arall (fel llywodraeth genedlaethol), efallai na fydd yn bosibl dyrannu'r amser hwn. Gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd bob amser geisio caniatáu’r amser mwyaf posibl i hwyluso ymgynghoriad iawn a chlir. Gwnaiff bopeth posibl i liniaru'r effaith cyfnodau ymgynghori byrrach.

**Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd weithredu o fewn deg egwyddor ymgysylltu Cyfranogaeth Cymru (gweler Atodiad A). Mae cyswllt y Comisiynydd gyda sefydliadau trydydd sector yn ffurfio rhan o'r gweithgarwch hwn. Yn benodol, gwnaeth y Comisiynydd gytuno gyda sefydliadau trydydd sector i gyflawni'r trefniadau canlynol.

**Digwyddiad Ymgysylltu Blynyddol**

Bob blwyddyn gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnal digwyddiad ymgysylltu er mwyn ymgysylltu gyda holl sefydliadau trydydd sector perthnasol a chwe Chyngor Gwirfoddol Sirol Gogledd Cymru. Mae'r digwyddiad yn agor i holl sefydliadau trydydd sector perthnasol ac nid yw'n gyfyngedig i sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol. Yn ystod y digwyddiad, bydd y Comisiynydd yn:

- Rhoi diweddariad ar gynnydd a wnaed o ran amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd a rhoi cyfle i fynychwyr roi adborth o ran y blaenoriaethau.
- Derbyn ac ymateb i gwestiynau gan fynychwyr o ran y Cynllun Heddlu a Throsedd neu gwestiynau o ran plismona a throsedd yng Ngogledd Cymru.

Cofnodir y digwyddiad a chylchredir adroddiad wedi'r digwyddiad ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd a Throsedd gan gwmpasu adborth mynychwyr.

**Ymweliadau â sefydliadau trydydd sector unigol**

Mae'n bwysig i'r Comisiynydd gael cipolwg ar weithgarwch rheng flaen sefydliadau trydydd sector er mwyn deall y galw am eu gwasanaethau'n effeithiol a sut y cânt eu cyflawni. Felly, cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ymweld â sefydliadau trydydd sector unigol amrywiol mewn lleoliadau y cyflawnir eu gwasanaethau. Bydd yr ymweliadau'n ymestyn i sefydliadau sydd ynghlwm gyda'r gweithgarwch diogelwch cymunedol a gwnaiff ganiatáu'r Comisiynydd weld y problemau rheng flaen maent yn eu hwynebu ac effaith eu gwasanaethau ar y gymuned. Gwahoddir sefydliadau sy'n dymuno cael eu hystyried am ymweliad i gwblhau'r ffurflen yn Atodiad B a'i dychwelyd at Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**Gwefan – Tudalen Trydydd Sector**

Yn unol â'r strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu, un o brif offerynnau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd ydy ei gwneud hi ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ar ben hyn, mae'r Comisiynydd wedi sefydlu tudalen o'i wefan ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth i'r Trydydd Sector. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth

o'i weithgarwch ymgysylltu. Bydd Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn creu cysylltiad rhwng eu gwefannau a gwefan SCHTh.

[Trydydd Sector (northwales-pcc.gov.uk)]

**Cronfa Ddata Cysylltiadau'r Trydydd Sector**

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadw cronfa ddata o gysylltiadau cymunedol er mwyn trosglwyddo darnau perthnasol o wybodaeth gyda phobl mewn cymunedau lleol. Argymhellir fod holl sefydliadau trydydd sector yn cofrestru eu manylion gyda Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd er mwyn derbyn diweddariadau a gwybodaeth berthnasol am faterion a digwyddiadau lleol gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae bob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn cadw cronfa ddata o sefydliadau a ellir cael ei defnyddio gan y Comisiynydd i gyfathrebu gyda sefydliadau trydydd sector.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r trydydd sector yn glynu at ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Comisiynydd yn ymgymryd â chyflawni ei ddyletswydd sector cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, cyflymu cydraddoldeb cyfle a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl. Ar ben hyn, gwnaiff y Comisiynydd weithredu yn unol gyda'r egwyddorion a'r blaenoriaethau cydraddoldeb a amlinellir yng Nghynllun Cydraddoldeb Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Rhoddir cydraddoldeb gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Anghydfodau a Phryderon**

Os ydy'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol, boed gyda'i gilydd neu'n unigol, â phryderon o ran gweithredu'r Cytundeb, maent yn cytuno i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyfryngu er mwyn cael datrysiad.

**Adolygiad**

Gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r chwe chyngor gwirfoddol adolygu cyflawniad ac effeithiolrwydd y cytundeb yn flynyddol.

**Polisïau Perthnasol**

Ceir isod restr o'r Polisïau sy'n ategu a chefnogi'r Cytundeb hwn.

Cynllun Heddlu a Throsedd

Cyfranogaeth Cymru – Egwyddorion Ymgysylltu

Cynllun Cydraddoldeb Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Polisi Gohebiaeth

**Atodiad A**

**Cyfranogaeth Cymru – 10 Egwyddor Ymgysylltu**

1. **Mae ymgysylltu mewn gwirionedd wedi'i lunio er mwyn gwneud gwahaniaeth**
   Mae ymgysylltu yn rhoi cyfle go iawn i ddylanwadu polisi, llunio a chyflawni gwasanaeth o gyfnod cynnar

2. **Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan os ydynt yn dymuno.**
   Mae pobl a effeithir gan broblem neu newid yn cael eu cynnwys mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolyn neu fel rhan o grŵp neu gymuned, gyda'u safbwyntiau wedi'u parchu a'u gwerthfawrogi.

3. **Mae ymgysylltu wedi'i gynllunio a'i gyflawni mewn ffordd amserol a phriodol**
   Mae'r broses ymgysylltu yn glir, wedi'i throsglwyddo i bawb mewn ffordd sy'n hawdd ei deall o fewn amserlen resymol, ac fe ddefnyddir y dull/dulliau mwyaf addas i bawb.

4. **Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol**
   Dylai sefydliadau gyfathrebu gyda'i gilydd a gweithio gyda'i gilydd lle bynnag mae'n bosibl er mwyn sicrhau fod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

5. **Bydd y wybodaeth a roddir yn rhydd o jargon, yn briodol, ac yn ddealladwy**
   Mae pobl mewn lle da i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd bod ganddynt fynediad hawdd at wybodaeth berthnasol sydd wedi'i theilwra er mwyn bodloni eu hanghenion.

6. **Gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan**
   Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd fe nodir unrhyw rwystrau i grwpiau gwahanol o bobl ac fe ymdrinnir â nhw.

7. **Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol**
   Dylai prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder holl gyfranogwyr.

8. **Rhoddir yr adnoddau a'r cymorth cywir i ymgysylltu fod yn effeithiol**
   Darperir hyfforddiant, canllawiau a chymorth priodol er mwyn galluogi holl gyfranogwyr i ymgysylltu'n effeithiol, gan gynnwys cyfranogwyr a staff cymunedol.

9. **Dywedir wrth bobl am effaith eu cyfraniad**
   Rhoddir adborth amserol i holl gyfranogwyr am y safbwyntiau gwnaethant eu mynegi, a'r penderfyniadau neu'r camau a gymerwyd o ganlyniad. Dylai dulliau ac adborth ystyried dewisiadau cyfranogwyr

10. **Dysgu a rhannu gwersi er mwyn gwella'r broses ymgysylltu**
    Dylid monitro a gwerthuso profiad pobl o'r broes ymgysylltu er mwyn mesur ei lwyddiant mewn ymgysylltu â phobl ac effeithiolrwydd eu cyfranogiad. Dylid rhannu gwersi a'u cymhwyso mewn ymgysylltiadau yn y dyfodol.

**Datblygwyd yr Egwyddorion hyn gan Gyfranogaeth Cymru gan weithio gyda TPAS Cymru, o dan arweiniad partneriaeth Cyfranogaeth Cymru. Fe'u cymeradwywyd gan Brif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cymru.**

**Ceir canllawiau pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar**

www.participationcymru.org.uk

**Mawrth 2011**

**Atodiad B**

**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Cais i ymweld â Sefydliad Trydydd Sector/Gwirfoddol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

---

**ENW LLAWN Y SEFYDLIAD**

**ENW CYSWLLT**

**CYFEIRIAD** (LLEOLIAD Y DARPERIR GWASANAETHAU)

**RHIF FFÔN**

**E-BOST**

**MANYLION GWEFAN**

**DIBEN / RÔL Y SEFYDLIAD**

**SUT MAE'R SEFYDLIAD YN EFFEITHIO AR DROSEDD A MATERION DIOGELWCH CYMUNEDOL?**

**A OES UNRHYW FATERION PENODOL YR HOFFECH EU CODI GYDA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD YN YSTOD EI YMWELIAD?**

Ar brydiau gall SCHTh hysbysu'r cyfryngau lleol ynghylch ymweliadau a wneir gan y CHTh. Os nad ydych eisiau unrhyw gyhoeddusrwydd o ran ei ymweliad i'ch sefydliad, ticiwch yma. ☐

**Dychwelwch y ffurflen at**: Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Glan-y-Don, Pencadlys yr Heddlu, Bae Colwyn, LL29 8AW neu drwy opcc@northwales.police.uk